

Datganiad Hygyrchedd y We

Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr fod ein gwefan yn hygyrch i'n holl ddefnyddwyr yn rheolaidd. Rydym wedi ceisio sicrhau y byddwch yn gallu cael mynediad at ein holl gynnwys, pa gyfyngiadau bynnag rydych yn eu hwynebu. P'un ai bod gennych anabledd sy'n effeithio ar sut rydych yn cyrchu'r rhyngwrwyd, neu fod eich mynediad i'r rhyngwrwyd yn cael ei effeithio gan y ddyfais rydych yn ei defnyddio, eich cysylltiad rhyngwrwyd neu ble rydych yn digwydd bod.

Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd y wefan wedi bodloni'r pwyntiau gwirio yng Nghannllawiau W3C ar Hygyrchedd Cynnwys y We, sy'n berthnasol i ni. Mae croeso i chi gysylltu os ydych yn cael trafferth cyrchu unrhyw rannau o'r safle.

Ewch i dudalennau Cynllun Hygyrchedd y We W3C i ganfod mwy am gael mynediad i'r we: www.w3.org/WAI/fundamentals

I gael manylion llawn yr hyn a brofwyd gennym a sut mae'r wefan yn bodloni meini prawf "CAG 2.1 AA, gweler ein [Hadroddiad Gwerthuso Hygyrchedd](#)

Mae'r adroddiad yn eithaf technegol felly dyma grynodedb sy'n egluro sut rydym wedi gwneud ein safle yn hygyrch.

Strwythur y Dudalen

Rydym wedi ysgrifennu'n tudalennau fel bod trefn y cynnwys yn gwneud synnwyr p'un ai bod y tudalennau mewn arddull arbennig neu'n darllen fel testun plaen. Rydym yn cynnwys bariau ochr ar rai tudalennau. Fodd bynnag, maent wedi'u labelu'n glir ac nid ydynt yn torri ar draws y prif gynnwys. Mae gan bob tudalen deitl disgrifiadol, sy'n disgrifio cynnwys y dudalen.

Rydym wedi sicrhau fod y testun, ar ddolenni a botymau, yn disgrifio i ble mae'r ddolen yn mynd.

Testunau gwahanol

Byddwn yn ceisio cyflwyno'r rhan fwyaf o'n cynnwys fel testun o fewn tudalen we fel y gall unrhyw ddyfais ei weld. Cynnwys heb fod yn destun yw: PDF, delweddau a chynnwys wedi'i fewnblannu.

PDF - Weithiau mae'n rhaid i ni roi dogfennau ar ffurf pdf. Mae hyn oherwydd bod ganddynt fformat swyddogol neu fod sefydliad arall wedi'u rhoi i ni. Gyda phob pdf, ceir crynodeb o'r wybodaeth a dolen i lawrlwytho'r ddogfen lawn. Byddwn yn gwneud yn siŵr fod dogfennau pdf yn hygyrch ac yn cael eu gwneud gyda chynnwys testun fel y gallant gael eu darllen gan raglenni darllen sgrin, neu fel y gallwch gynyddu maint y testun.

Delweddau cymhleth - Weithiau gofynnir i ni rannu delweddau gyda llawer o destun, fel posteri neu ddogfennau gwybodaeth eraill. I wneud yn siŵr eu bod yn hygyrch byddwn yn gwneud y canlynol: Gyda'r delweddau bydd disgrifiad am eu pwrpas, e.e. poster. Hefyd byddwn yn dangos y cynnwys cyfatebol ar ffurf testun, neu, os yw'r testun yn rhy hir, byddwn yn rhoi dolen lle gellir cael y cynnwys. Byddwn yn defnyddio'r lleiaf posibl o gynnwys fel hyn.

Alt text – Os na allwch weld delweddau am ba reswm bynnag, byddwn yn darparu disgrifiad testun amgen (*alt text*) o'r ddelwedd fel nad ydych yn colli dim. Mae'r testun amgen hwn yn cael ei roi yn y briodoledd delwedd amgen, sy'n cael ei galw'n 'alt text'. Byddwn yn dewis geiriad synhwyrol i egluro ystyr y cynnwys pan nad yw'r lluniau'n weladwy. Mae rhai delweddau, fel y delweddau nodwedd a welir ar bob crynodeb, yno fel addurniadau. Gyda delweddau addurniadol yn unig, rydym wedi gadael yr *alt text* yn wag.

Cynnwys wedi'i fewnblannu - Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn labelu cynnwys wedi'i fewnblannu yn glir. Er enghraifft, mae gan ein Map Google sydd wedi'i fewnblannu, bennawd disgrifiadol, disgrifiad byr o'r tirnodau a theitl yn yr iffrâm.

Llywio drwy'r cynnwys

Mae pennawd y wefan gyda hunaniaeth y safle a llywio, wedi'u darparu ar bob tudalen i'ch helpu i ddeall ble'r ydych yn y safle, a dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas. Mae map o'r safle ar gael hefyd, sy'n ffordd arall o lywio drwy'r wefan.

Er mwyn helpu cyfryngau defnyddiwr (e.e. porwyr gwe, rhaglenni darllen sgrin) i ddeall ar gyfer beth mae gwahanol elfennau neu adrannau ar dudalen, rydym yn defnyddio rolau tirnod "ARIA (Accessible Rich Internet Applicatons)". Rydym wedi cynnwys y tirnodau canlynol yn ein templedi gwefan fel y gall rhywun sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol lywio drwy dudalen yn haws.

- baner (*ar gyfer pennawd y dudalen*),
- llywio,
- ategol (*ar gyfer bariau ochr a chynnwys llithryddion*),
- prif,
- erthygl,
- gwybodaeth cynnwys (*ar gyfer troedyn y dudalen*)

Lliw a chyferbyniad

Mae pob elfen destunol yn cynnwys penawdau, dolenni a botymau wedi'u dylunio'n gyson i'ch helpu i ddod o hyd i'ch ffordd o amgylch y wefan. Mae'n penawdau yn las, a'n dolenni yn frown, ac mae'r botymau yn las.

Mae rhai pobl yn cael anawsterau (technegol neu gorfforol) i wahaniaethu rhwng lliwiau, felly rydym yn defnyddio pethau eraill hefyd i wneud yn siŵr eu bod yn dal yn gallu gweld strwythur y dudalen. Ar gyfer penawdau, rydym yn defnyddio meintiau a theipiau gwahanol i'w gwahaniaethu o destun arferol. Mae dolenni yn defnyddio addurn testun neu forderi yn ogystal â lliw. Pan mae dolen mewn ffocws mae ganddi amlinelliad clir. Golyga hyn y gallwch lywio'r dudalen yn gyffyrddus gyda bysellfwrdd.

Mae digon o gyferbyniad rhwng y lliwiau yn y blaendir a'r cefndir ym mhob achos o destun.

Rydym wedi gwneud fersiynau arbennig o'n logo ar gyfer y wefan: fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg. Rydym wedi cynyddu maint y testun ar fersiynau'r logo ar y we fel ei fod yn haws i'w ddarllen.

Maint y testun

Gallwch gynyddu maint y testun gyda'ch porwr. Mae cynyddu maint y testun hefyd yn cynyddu uchder y llinell sy'n gwneud y cynnwys yn gyffyrddus i'w ddarllen. Yn ychwanegol at hynny, rydym wedi sicrhau nad oes goryffwrdd neu guddio testun os ydych yn gwneud hyn.

Defnyddio'r wefan

Mae pob adran o'r wefan yn cynnwys dolenni, llywio a ffurflen gysylltu yn gallu cael eu defnyddio drwy fyselldwrdd, yn ogystal â thrwy ddefnyddio llygoden a chyffyrddiadau. Mae'r cwymplenni ar y brif ddewislen yn hygyrch â bysellfwrdd drwy fotwm togl sy'n dangos ac yn cuddio'r dolenni o fewn yr is-ddewislen.

Gellir atal a sgrolio'r faner llun sy'n sgrolio ar y dudalen gartref drwy ddefnyddio'r bysellfwrdd.

Mae dolenni a botymau yn dilyn ei gilydd mewn trefn resymegol, felly gallwch ddefnyddio'r tabiau gyda'ch bysellfwrdd yn hawdd i fynd trwy'r cynnwys.

Rydym wedi profi'n gwefan ar wahanol ddyfeisiau ar wahanol ogwydd. Mae modd gweld y cynnwys o unrhyw ddyfais neu ogwydd.

Yn ein ffurflen gysylltu rydym wedi labelu'r mewnbynnau yn glir. Pan fyddwch yn clicio ar faes ffurf, neu ei label, bydd cefndir a border y maes yn newid lliw i ddangos fod y maes mewn ffocws. Caiff gwallau ffurflen eu marcio â'r tirnod='alert'. Mae'r rhybudd yn esbonio'r gwall ac mae wedi'i wahaniaethu'n glir gyda border lliw.

Iaith

Gwefan ddwyieithog yw hon ac mae'r tudalennau ar gael yn Gymraeg neu Saesneg. Rydym yn defnyddio priodoledd iaith yn y cod tudalen. Mae hyn yn caniatáu i'r porwr neu'r dechnoleg gynorthwyol 'adnabod' ym mha iaith y mae'r cynnwys, a defnyddio'r rheolau ynganu cywir. Ein nod yw darparu'r cynnwys i gyd yn y ddwy iaith. Os oes Cymraeg ar y dudalen Saesneg neu fel arall, byddwn yn marcio'r iaith ar wahân er mwyn gadael i'r dechnoleg gynorthwyol wybod am y newid iaith.

Yr eithriad i hyn yw pan fo ymadrodd Cymraeg yn cael ei fabwysiadu gan siaradwyr Saesneg, neu ymadrodd Saesneg gan siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft, ar y dudalen Saesneg, caiff enw adeilad y Cyngor, sef Canolfan Coed Cynol, ei ddefnyddio gan siaradwyr Saesneg, felly nid oes angen nodi mai'r Gymraeg yw'r iaith.

Mae map Google sydd wedi'i fewnblannu o swyddfeydd y cyngor yn cael ei ddarparu ar gyfer ein hymwelwyr. Mae'r iaith yr arddangosir map Google ynnddi yn dibynnu ar eich dewis iaith (a sefydlwyd yn eich gosodiadau porwr). O ran Cymru a'r iaith Gymraeg fodd bynnag, mae cryn nifer o'r labeli map ond ar gael yn Saesneg. Ymddiheurwn am hyn a gobeithio nad yw'n effeithio'n sylweddol ar eich profiad.

Cod dilys

Rydym wedi profi'r tudalennu o ran cod dilys gyda Dilysydd W3C: validator.w3.org – ni chanfuwyd unrhyw wallau. Mae hyn yn gwella cydweddoldeb ag amrywiol ddyfeisiau a thechnolegau, yn cynnwys technolegau cynorthwyol, yn awr ac yn y dyfodol.